CANLLAW YMARFER CYMRU GYFAN

Wedi ei ddiweddaru ddiwetha': Chwefror 2021

# Ddiogelu plant a all fod wedi'u masnachu

*I'w ddefnyddio ar y cyd â Gweithdrefnau Diogelu Cymru*

## Ar gyfer pwy y mae'r canllaw ymarfer hwn?

Mae'r canllaw hwn yn bennaf ar gyfer ymarferwyr sy'n gweithio gyda phlant (hyd at 18 mlwydd oed).

Mae hyn yn cynnwys y rhai sy'n gweithio ym meysydd y blynyddoedd cynnar, gofal cymdeithasol, addysg, iechyd, yr heddlu, troseddau ieuenctid ac ieuenctid, cymunedol a gwasanaethau cymorth i deuluoedd (gan gynnwys y trydydd sector) a gofal maeth a phreswyl.

## Beth yw diben y canllaw hwn?

Mae diogelu plant yn gyfrifoldeb a rennir gan bawb sydd yn dod i gysylltiad â phlant a phobl ifanc.

Mae Gweithdrefnau Diogelu Cymru yn helpu unigolion ac asiantaethau ledled Cymru i ddeall eu rolau a chyfrifoldebau o ran sicrhau bod plant ac oedolion yn ddiogel. Maent o blaid defnyddio dull cyson o roi arferion a gweithdrefnau diogelu ar waith ledled Cymru.

Mae'r canllaw ymarfer hwn yn cynnig gwybodaeth ychwanegol ar ymateb i achosion pan fo plentyn wedi'i fasnachu. Dylid ei ddefnyddio ar y cyd â Gweithdrefnau Diogelu Cymru.

Dylai trefniadau diogelu effeithiol ym mhob ardal awdurdod lleol gael eu hategu gan ddwy brif egwyddor:

- mae diogelu yn gyfrifoldeb ar bawb; er mwyn i wasanaethau fod yn effeithiol dylai pob ymarferydd a sefydliad chwarae eu rhan lawn yn unigol a thrwy gydweithredu; **a**

- dull sy'n canolbwyntio ar y plentyn; er mwyn i wasanaethau fod yn effeithiol dylent fod yn seiliedig ar ddealltwriaeth glir o'r canlyniadau personol i'r plentyn a beth sy'n bwysig iddo ef. Dylai hawliau'r plentyn fod yn ganolog i'r dull hwn a'i fudd personol ddylai gael y sylw pennaf bob amser.

Mae rhai materion sy'n gyffredin yn yr holl ganllawiau ymarfer diogelu a rhai sy'n benodol i'r mater diogelu dan sylw:

- Mae Confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn (CCUHP) yn sicrhau bod pob plentyn yn cael yr hawl i dyfu yn iach, hapus a diogel. Mae hyn yn cynnwys cael ei ddiogelu rhag niwed a chael cymorth priodol i wella yn dilyn cael ei gam-drin. Dylai ymarferwyr a gweithwyr proffesiynol fabwysiadu Dull Hawliau Plant yn unol â dyletswydd sylw dyledus i CCUHP a dilyn Safonau Cyfranogiad Cenedlaethol.

- Rhaid i asiantaethau gydweithio er mwyn cynnig ymateb cydgysylltiedig i faterion diogelu fel y nodir yng Ngweithdrefnau Diogelu Cymru.

- Mae Dyletswydd i Adrodd am Blant mewn Perygl ar bartneriaid perthnasol dan Adran 130 Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014. Crynodeb Diogelu Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru)

- Mae rhannu gwybodaeth yn ganolog i arferion diogelu da. Mae'n rhaid i ymarferwyr rannu gwybodaeth yn unol â deddfwriaeth diogelu data. Mae deddfwriaeth diogelu data yn galluogi'r gwaith o rannu gwybodaeth ac ni ddylid ei defnyddio'n awtomatig fel rheswm dros beidio â gwneud hynny. **Un o'r amgylchiadau penodol pan fo gofyn rhannu gwybodaeth yw er mwyn atal camdriniaeth neu niwed difrifol rhag digwydd i eraill.** Pan na chaiff gwybodaeth ei rhannu yn amserol ac effeithiol, gall penderfyniadau o ran sut i ymateb fod yn seiliedig ar anwybodaeth a gall hynny arwain at ymarfer diogelu gwael a rhoi plant mewn perygl o niwed.

- Rydym yn gwybod bod plant sydd â nam ar eu synhwyrau a phlant anabl mewn mwy o berygl o gael eu cam-drin o'u cymharu â'u cyfoedion nad ydynt yn anabl / nad oes ganddynt nam ar eu synhwyrau. Maen nhw hefyd yn llai tebygol o gael yr amddiffyniad a chymorth y mae eu hangen arnyn nhw ar ôl cael eu cam-drin. Dylai ymarferwyr a gweithwyr proffesiynol nodi'n glir bod plant sydd â nam ar y synhwyrau a phlant anabl yn fwy agored i gael eu cam-drin a'u hesgeuluso, yn ogystal â'r rhwystrau y gallant

wynebu, yn enwedig o ran cyfathrebu a chyflwyno unrhyw nodweddion diogelu ychwanegol sydd eu hangen i'w hamddiffyn.

- Dylai gweithwyr proffesiynol ac ymarferwyr ymgyfarwyddo eu hunain â diwylliant a chredoau'r teuluoedd y maent yn gweithio gyda nhw. Ni ddylai ymarferwyr ofni gofyn ynghylch ymddygiad penodol a'r rhesymau drosto mewn modd sensitif ac ni ddylent fyth anwybyddu arferion sydd o bosibl yn niweidiol ar sail sensitifrwydd diwylliannol.

- Mae pryderon canolog ac amlwg i fynd i'r afael â nhw o ran cynllunio ar gyfer anghenion gofal a chymorth plant sydd â statws Plant ar eu Pen eu Hunain yn Ceisio Lloches (UASC). Mae Canllaw Llywodraeth Cymru ar Blant Digwmni sy'n Ceisio Lloches i Weithwyr Proffesiynol ar gael. Fodd bynnag, mae'n bwysig cofio bod rhaid i ymarferwyr ystyried mesurau diogelu penodol yn rhan o'r gwaith o gynllunio gydag ac ar gyfer y plentyn. Dylai hyn gynnwys cynllunio ymlaen llaw fesurau sy'n debygol o leihau'r perygl bod plentyn yn mynd ar goll.

- Rhaid i bob ymarferydd fod yn ymwybodol o'r posibilrwydd bod y plentyn yn agored i niwed ni waeth y lleoliad mae'n byw ynddo, p'un ai a yw'n derbyn gofal maeth, mewn lleoliadau mabwysiadol neu mewn cartref plant. Bydd gan blant mewn lleoliadau neu sydd wedi'u mabwysiadu berthnasau a allai gynnwys gofalwyr maeth, rhieni mabwysiadol, rhieni biolegol, brodyr neu chwiorydd neu berthnasau biolegol eraill. Gallai'r perthnasau hyn ac unrhyw gysylltiad fod yn gadarnhaol ac wedi'u croesawu neu'n rhai nad oes eu heisiau ac y'u hystyrir yn berygl. Gallai profiad plentyn o gamdriniaeth ac esgeulustod yn y gorffennol ei adael mewn perygl o gael anawsterau iechyd meddwl, ymddygiadol neu emosiynol a allai barhau i'w wneud yn agored i niwed.

- Dylai ein hymateb i faterion diogelu fod yn gymesur, yn canolbwyntio ar y plentyn ac ar sail anghenion ac amgylchiadau unigol y plentyn. Mae angen i blant gael eu cynnwys yn ystyrlon yn y gwaith o gynllunio eu gofal a'u cymorth.

- **Dylai plant gael eu gweld a dylai eu barn gael ei chlywed.** Mae tystiolaeth o Adolygiadau Arfer Plant wedi tynnu sylw at yr angen i blant gwrdd â'u hymarferwyr ar eu pennau eu hunain, heb gwmni rhieni a gofalwyr mewn amgylchedd y maent yn teimlo'n ddiogel ynddo, fel y gall y plentyn hwnnw siarad am yr effaith y mae'r amgylchiadau sydd wedi ysgogi pryderon diogelu yn ei chael arno. Mae gormod o achosion lle na welwyd y plentyn neu nas ofynnwyd iddo am ei farn na'i deimladau, neu le na ddigwyddodd hyn ddigon. Mae rhoi amser a lle i wrando'n uniongyrchol ar blant yn cefnogi system sy'n canolbwyntio ar y plentyn ac yn hyrwyddo arfer diogelu da.

- Mae masnachu plant yn ffurf ar gam-drin plant sy'n gofyn am ymateb i amddiffyn plant.

- Fel dioddefwyr ffurfiau eraill ar gam-drin plant, bydd plentyn sydd wedi cael ei fasnachu yn disgrifio ymddygiad y bydd rhaid ei asesu yn erbyn arwyddion cam-drin plant neu gaethwasiaeth fodern. Mae'n bosibl na fydd plant yn gyfarwydd â thermau megis 'masnachu' neu 'gaethwasiaeth' neu'n gallu nodi eu bod wedi'u cam-drin.

- Eir i'r afael â masnachu plant mewn dau brif ddarn o ddeddfwriaeth, Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 a Deddf Caethwasiaeth Fodern 2015.

- Mae gan rai staff rheng flaen sy'n dod ar draws dioddefwr caethwasiaeth fodern neu fasnachu pobl posibl **ddyletswydd i adrodd** am hynny i'r Swyddfa Gartref dan Adran 52 **Deddf Caethwasiaeth Fodern 2015.** Mae'r gofyniad hwn yn berthnasol i'r Heddlu, Awdurdodau Lleol, yr Asiantaeth Troseddu Cenedlaethol ac Awdurdod Meistri Gangiau Llafur a Cham-drin.

## Diffiniad

Mae **Masnachu mewn Plant** yn cynnwys 3 cydran:

- **Cam Gweithredu -** Recriwtio, cludo, trosglwyddo, llochesu neu dderbyn, plentyn sy'n cynnwys elfen o symud o un lle i'r llall

- **Cam-fanteisio -** Mae tystiolaeth neu achos rhesymol i gredu bod plentyn yn dioddef camdriniaeth drwy gam-fanteisio rhywiol, cam-fanteisio troseddol, llafur dan orfod neu gaethiwed domestig, caethwasiaeth, cam-fanteisio ariannol, mabwysiadu anghyfreithlon, tynnu organau'r plentyn (gweler yr atodiadau)

- **Ac yn cynnwys plentyn -** Mae'n digwydd i'r rheiny hyd at 18 mlwydd oed.

## Cyflwyniad a sail y dystiolaeth

- Mae nifer yr achosion o fasnachu mewn plant a nodwyd yng Nghymru a'r DU yn cynyddu. Mae'r Asiantaeth Troseddu Cenedlaethol yn cyhoeddi ystadegau'n chwarterol ac mae'r ffigyrau diweddaraf ar gyfer Cymru wedi'u cynnwys yn y datganiadau hyn.

- Ar 31 Ionawr 2016, mewn adroddiad gan Europol nodwyd bod 10,000 o blant ar eu pen eu hunain yn dal ar goll ar ôl cyrraedd yn Ewrop, a'r ofn yw bod llawer o'r rhan yn destun cam-fanteisio ac yn cael eu cam-drin at ddibenion rhywiol neu lafur.[1]

- Credir bod tua 60% o blant yr amheuir eu bod yn ddioddefwyr masnachu mewn plant dan ofal awdurdodau lleol yn mynd ar goll.[2] Mae bron i ddwy ran o dair o'r plant a gaiff eu masnachu yn diflannu'n llwyr.[3]

- Gall plant a gaiff eu masnachu o wledydd tramor ddod i'r DU trwy amrywiol ddulliau. Caiff rhai eu cludo i'r DU yn ddirgel fel ceiswyr lloches ar eu pen eu hunain, neu fyfyrwyr neu fel ymwelwyr. Caiff plant eu cludo i'r DU gan oedolion sy'n honni bod y plentyn yn un o'u dibynyddion hefyd, neu gan oedolyn sy'n cwrdd â'r plentyn yn y maes awyr gan honni ei fod yn perthyn iddo.

- Caiff rhai plant eu smyglo i'r DU. Mae masnachu yn wahanol i smyglo. Fodd bynnag, mewn rhaid achosion gall plant fod yn destun cam-fanteisio neu fasnachu yn ystod eu siwrnai. (gweler atodiadau)

- Gall plant, gan gynnwys gwladolion Prydain, gael eu masnachu i mewn, allan ac o fewn y DU er mwyn cam-fanteisio arnyn nhw.

- Mae'r Swyddfa Gartref wedi cyhoeddi A Typology of Modern Slavery Offences in the UK (2017)

- Mae diffiniadau o'r termau a ddefnyddir yn y canllaw hwn ar gael yn yr atodiadau.

## Arwyddion y gall plentyn fod wedi'i fasnachu

Mae llawer o wahanol ddangosyddion bod masnachu a cham-fanteisio'n digwydd a dylai'r rheiny arwain at adrodd bod plentyn mewn perygl a sbarduno ymchwiliad amddiffyn plant. Gellir nodi un dangosydd yn unig neu gall fod llawer ohonynt. Mae amrywiaeth o wahanol bobl ym mywyd y plentyn a all fod yn amau neu yn meddu ar wybodaeth am un dangosydd ond yn wahanol i bob un. Felly mae'n bwysig yr adroddir ar unrhyw bryderon fel mater diogelu ar unwaith er mwyn ceisio rhagor o wybodaeth gan yr holl asiantaethau sy'n berthnasol i fywyd y plentyn.

Dylai'r arwyddion helpu ymatebwyr cyntaf i wneud asesiad sylfaenol o ran p'un ai a allai'r unigolyn dan sylw fod yn blentyn sydd o bosib yn agored i gaethwasiaeth fodern / masnachu mewn pobl; a ph'un ai a ddylid cwblhau atgyfeiriad Mecanwaith Atgyfeirio Cenedlaethol (MAC).

Anogir gweithwyr proffesiynol ac ymarferwyr sydd mewn cysylltiad â phlant ymgyfarwyddo eu hunain ag arwyddion posibl masnachu mewn pobl neu gaethwasiaeth fodern sydd wedi'u nodi mewn Ffurflen MAC Plant.

# Arwyddion

**Pethau y gall plentyn ddweud a’r ffordd y gall ymddwyn:**

- Honni ei fod wedi bod yn destun cam-fanteisio rhywiol, troseddau, cam-fanteisio ar weithwyr neu gaethwasiaeth domestig gan unigolyn arall
- Mae ei stori’n debyg iawn i storïau pobl eraill, sydd efallai’n awgrymu ei fod wedi cael ei hyfforddi
- Yn cyfleu ofnau / pryderon gormodol (er enghraifft am unigolyn, cael ei allgludo, datgelu gwybodaeth)
- Honni ei fod yn gaeth i ddyled neu ei fod mewn “dyled” ariannol i bobl eraill (er enghraifft am gostau teithio, cyn gallu rheoli ei enillion ei hun)

**Arwyddion corfforol cam-fanteisio:**

- Symptomau corfforol o gam-drin ymelwol (rhywiol neu gorfforol er enghraifft)
- Arwyddion corfforol ei fod yn gweithio (er enghraifft yn or-flinedig yn yr ysgol, arwyddion gwaith corfforol – cyflwr y dwylo/croen, poen cefn)
- Haint a Drosglwyddir yn Rhywiol neu feichiogrwydd di-eisiau

**Arwyddion sy’n ymwneud â symud plentyn o un lle i le arall:**

- Mae’r plentyn yn dychwelyd ar ôl bod ar goll ac yn ymddangos ei fod wedi cael gofal da er gwaetha'r ffaith nad oes neb yn gwybod yn union lle yr oedd
- Mae’n honni ei fod wedi bod yn y DU am flynyddoedd ond nid yw wedi dysgu'r iaith a'r diwylliant lleol
- Mae wedi mynd ar goll o ofal yr awdurdod lleol
- Nid yw’n gallu cadarnhau enw a chyfeiriad y person sy’n cwrdd â nhw ar ôl iddyn nhw gyrraedd
- Mae’r oedolyn sydd gydag ef wedi gwneud sawl cais am Visa ar gyfer plant eraill / yn gweithredu fel gwarantwr ceisiadau Visa plant eraill
- Mae ei hanes yn cynnwys bylchau neu symudiadau nad oes esboniad ar eu cyfer
- Mae wedi dod i mewn i'r wlad yn anghyfreithiol

- Mae'r siwrnai neu'r Visa wedi drefnu gan rywun ar wahân iddo ef neu ei deulu
- Mae wedi'i gofrestru mewn sawl cyfeiriad
- Patrwm o ddigartrefedd a chysgu ar y stryd

**Arwyddion o gam-fanteisio a bod dan reolaeth unigolyn arall:**

- Mae ei bartner yn hŷn o lawer nag ef neu hi
- Priodas dan oedb
- Yng nghwmni oedolyn nad yw'n warcheidwad cyfreithiol y plentyn ac sy'n mynnu bod gyda'r plentyn bob amser.
- Mae ei symudiadau wedi'u cyfyngu
- Mae unigolyn arall yn cymryd ei enillion oddi arno
- Mae'n derbyn galwadau ffôn di-esboniad / anhysbys yn y lleoliad / llety dros dro
- Mae'n rhaid iddo ennill isafswm o arian bob dydd
- Mae'n gwneud gormod o waith tŷ a phrin iawn y mae'n gadael ei fan preswyl
- Mae'r plentyn yn gadael neu'n dychwelyd i'r lleoliad yn ystod oriau anarferol / patrymau rheolaidd sy'n nodi ei fod fwy na thebyg yn gweithio
- Mae adroddiadau gan ffynonellau dibynadwy yn awgrymu cam-fanteisio rhywiol posibl, gan gynnwys cael ei weld mewn lleoliadau y gwyddir sy'n cael eu defnyddio at ddibenion cam-fanteisio rhywiol
- Wedi'i leoli / symud o leoliad lle ceir cam-fanteisio (er enghraifft puteindy, fferm canabis, ynghlwm wrth droseddu)
- Mae ynghlwm wrth droseddau sy'n tynnu sylw at yr oedolion sydd ynghlwm ag ef (er enghraifft wedi'i symud o fferm /ffatri canabis, troseddau ar y stryd, mân-ladrata, cardota)

**Arwyddion yn ymwneud â dogfennaeth a manylion personol:**

- Does dim pasbort na dull adnabod arall ganddo
- Nid yw'n gallu neu mae'n amharod i roi manylion am lety neu fanylion personol arall

- Dogfennaeth ffug neu ddilys sydd wedi'i newid neu eu sicrhau drwy dwyll; neu mae'r plentyn yn honni mai ei fanylion ef (enw, dyddiad geni) sydd ar y ddogfennaeth...

**Arwyddion risg pellach:**

- Mae'n dawedog ac yn gwrthod siarad / ymddangos ei fod yn ofni siarad â rhywun mewn awdurdod
- Mae arwyddion o esgeulustod corfforol – gofal sylfaenol, diffyg maeth, diffyg sylw i anghenion iechyd
- Mae arwyddion o esgeulustod emosiynol
- Mae'n gymdeithasol ynysig - diffyg perthnasoedd cadarnhaol, ystyrlon
- Ymddygiadol – diffyg canolbwyntio neu yn anghofus, ymddygiad blin / anghymdeithasol / bygythiol
- Seicolegol – arwyddion o drawma neu deimlo dim byd
- Mae'n dangos hunanhyder ac aeddfedrwydd na ddisgwylir gan blentyn o'r oedran hwnnw
- Tystiolaeth o gamddefnyddio alcohol, cyffuriau neu sylweddau
- Hunan-ddelwedd isel, diffyg hunan barch, niweidio ei hun
- Yn actif yn rhywiol
- Nid yw wedi'i gofrestru nac wedi bod mewn meddygfa
- Nid yw ar gofrestr ysgol
- Mae ganddo arian, dillad drud, ffonau symudol neu eiddo arall heb esboniad call
- Mae'r plentyn yn destun trefniadau maethu preifat anghofrestredig
- Mae'r plentyn dan ofal oedolyn/oedolion nad yw'n rhiant/rheini ac nid yw safon y berthynas yn dda
- Mae'r lleoliad wedi torri i lawr
- Mae'r plentyn wastad ar goll, yn aros allan dros nos neu'n dychwelyd yn hwyr heb unrhyw esboniad call

- Triwantiaeth / diffyg ymgysylltiad ag addysg
- Nid yw’r oedolyn priodol yn aelod o'r teulu agos (rhiant / brawd neu chwaer)
- Nid yw’r oedolyn priodol yn gallu cyflwyno dull adnabod ffotograffig ar gyfer y plentyn
- Gwneud defnydd amhriodol o’r rhyngrwyd o bosib a ffurfio perthnasoedd ar-lein, yn enwedig gydag oedolion
- Hanesion am weithgareddau cymdeithasol heb unrhyw esboniad credadwy o ran ffynhonnell yr arian angenrheidiol
- Mynd i mewn neu allan o gerbydau sy’n cael eu gyrru gan oedolion anhysbys
- Gadael cartref / lleoliad gofal mewn dillad sy’n anarferol i’r plentyn unigol (er enghraifft dillad sy’n amhriodol i’w oedran, benthyca dillad gan bobl hŷn)
- Oedolion yn sefyllian y tu allan i fan preswyl arferol y plentyn
- Mae’r plentyn yn gweithio mewn amrywiol leoliadau
- Mae’n un o nifer o blant nad ydynt yn perthyn dim i’w gilydd y deuir ar draws mewn un cyfeiriad
- Mae ganddo allweddi i eiddo ar wahân i’r rheiny y gwyddys amdanynt
- Ceir hyd iddo mewn ardaloedd nad oes ganddo unrhyw gysylltiad ag ef

## Arwyddion i’w nodi mewn lleoliadau iechyd

Bydd gweithwyr proffesiynol ac ymarferwyr sy’n gweithio mewn lleoliadau iechyd yn aml yn dod i gysylltiad â phobl am gyfnod byr drwy glinig, ymweliad ag adran Damweiniau ac Achosion brys neu apwyntiad meddygol byr. Dylai’r fath weithwyr fod yn ymwybodol o’r arwyddion canlynol sy’n gysylltiedig ag iechyd pan fo’r plentyn:

- yn rhoi esboniadau aneglur neu anghyson o ran ble maen nhw’n byw neu’n mynd i’r ysgol
- yn rhoi gwybodaeth aneglur, yn amharod i esbonio sut digwyddodd yr anaf neu’n amharod i roi hanes meddygol
- heb ei gofrestru gyda meddyg teulu, meithrinfa neu ysgol

- wedi cael ei symud yn lleol, rhanbarthol, cenedlaethol neu ryngwladol
- trawma meddyliol, corfforol a rhywiol
- heintiau a drosglwyddir yn rhywiol
- yn feichiog, neu'n cyflwyno ei hun yn hwyr (dros 24 wythnos)
- yn bwyta'n anhwylus neu'n dangos arwyddion o ddiffyg maeth
- yn niweidio ei hunain, gan gynnwys ceisio lladd ei hun
- yn dangos arwyddion o boen deintyddol / problemau'n ymwneud ag iechyd y geg
- yn dioddef anhwylder straen wedi trawma amhenod
- yn dangos gofid seiciatryddol a seicolegol
- yn dangos symptomau aneglur megis poen cefn neu yn y stumog, problemau'n gysylltiedig â'r croen, cur pen a phendro
- poen pelfig / gweiniol / rhefrol

## Cofrestru yn yr ysgol

Mae'n bosib y caiff plant sy'n cael eu masnachu i'r wlad eu cofrestru mewn ysgol am dymor neu fwy, cyn cael eu symud i ran arall o'r DU neu dramor. Gall y patrwm o gofrestru a dadgofrestru hwn fod yn arwydd bod plentyn wedi'i fasnachu. Nodwyd bod hon yn broblem benodol mewn ysgolion sydd wrth ymyl pyrth mynediad, ond mae'n rhaid i chi fod yn wyliadwrus o'r posibilrwydd yma ym mhob ysgol. Fodd bynnag, mae'n bwysig cadw mewn cof nad yw pob plentyn sydd ar goll o'r system addysg wedi cael ei fasnachu. Er enghraifft, mae'n bosib bod rhai plant yn dod o gymunedau sy'n symud o gwmpas – teuluoedd sy'n Sipsiwn, Roma, teithwyr neu deuluoedd mudol – sy'n mynd ar goll o'r ysgol gyda'i gilydd.

## Plant sy'n ddioddefwyr sy'n ceisio lloches

Gall rhai plant sydd dan reolaeth masnachwr ddweud eu bod nhw ar eu pen eu hunain wrth geisio lloches. Mae'n bosib eu bod nhw wedi dod i mewn i'r DU gyda masnachwr a all fod yn aelod o'r teulu neu fel arall. Yn y fath achosion, mae'n bosib y bydd y masnachwr

wedi dweud wrth y plentyn y byddai gwneud hynny'n golygu y caiff ganiatâd i aros yn y DU. Mae plant sy'n wladolion y DU yn cael eu masnachu hefyd.

## Mae'n bosib y bydd plant a fasnachwyd yn ei chael yn anodd dweud wrth rywun beth sydd wedi digwydd iddyn nhw.[4]

Mae'n bosib y byddant yn dweud eu hanes gyda chamgymeriadau amlwg, diffyg cysondeb neu realiti. Nid yw llawer iawn o blant gaiff eu masnachu yn siarad Saesneg. Mae plant yn aml iawn yn ofni dweud dim. Mae'n bosib y byddant yn ofni:

- beth fydd yn digwydd iddyn nhw, eu ffrindiau a'u teulu
- pob oedolyn ac awdurdod
- cael eu herlyn am gyflawni trosedd
- cael eu hanfon yn ôl i'w gwlad enedigol lle gall eu sefyllfa fod hyd yn oed yn waeth
- Juju neu ddefodau dewiniaeth yn cael eu perfformio tra byddant yn cael eu cam-drin
- beirniadaeth gan eu cymuned a theuluoedd

Gallant hefyd deimlo euogrwydd neu gywilydd mawr am y cam-drin y maent wedi'i ddioddef Mae rhai masnachwyr yn creu storïau i'w dioddefwyr eu dysgu rhag ofn iddynt gael eu holi gan yr awdurdodau. Os yw plentyn yn dioddef trawma, mae'n bosib y bydd yn ei chael yn anodd cofio'r manylion neu bydd ganddynt fylchau yn eu cof.

## Cydsyniad plant sy'n ddioddefwyr

- styrir bod unrhyw blentyn a gaiff ei recriwtio, cludo, trosglwyddo, dal neu ei dderbyn at y diben o gam-fanteisio arno, neu a gaiff ei gyfarwyddo i weithio ei ystyried yn ddioddefwr caethwasiaeth fodern posibl, p'un ai a ydyw wedi'i orfodi neu ei gam-arwain neu beidio. Mae hyn oherwydd yr ystyriaeth **nad** yw'n bosibl i blant roi cydsyniad ar sail gwybodaeth.
- Mae'n **rhaid** i staff yn yr Awdurdod Cymwys ystyried bod unrhyw blentyn a gaiff ei recriwtio, cludo, trosglwyddo, dal neu ei dderbyn at y diben o gam-fanteisio arno, neu a

gaiff ei gyfarwyddo i weithio ei ystyried yn ddioddefwr masnachu a/neu gaethwasiaeth fodern, p'un ai a ydyw wedi'i orfodi neu ei gam-arwain neu beidio.

## Ymatebwyr cyntaf plant

Dan Ddeddf Caethwasiaeth Fodern 2015 dylid cyfeirio dioddefwyr masnachu neu gaethwasiaeth at y Mecanwaith Atgyfeirio Cenedlaethol

O ran egwyddor mae gan bob asiantaeth a sefydliad sy'n pryderu y gall plentyn fod yn ddioddefwr masnachu pobl gyfrifoldeb statudol i nodi bod y person yn ddioddefwr posibl a'i gyfeirio at yr awdurdodau cyfrifol a darparwyr cymorth. Nid oes rhaid i blant sy'n ddioddefwyr posib gydsynio i'r atgyfeiriad i'r MAC.

Nid yw hyn yn disodli dyletswyddau diogelu. Os oes gan unrhyw un amheuon y gall plentyn fod wedi'i fasnachu mae'n rhaid cyfeirio'r plentyn at y Gwasanaethau Cymdeithasol fel plentyn mewn perygl dan Ran 7 Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant Cymru.

O ran plant, gwneir atgyfeiriad ffurfiol i'r MAC gan yr ymatebwr cyntaf. Yng Nghymru, y rhain yw:

- Gwasanaethau Cymdeithasol Awdurdodau Lleol ac unigolion dynodedig yn y Byrddau Diogelu Plant;
- Cyfarwyddiaeth Fisâu a Mewnfudo'r DU y Swyddfa Gartref (UKBA gynt)
- Llu Ffiniau'r DU
- Yr Heddlu
- Asiantaeth Troseddu Cenedlaethol
- Barnardo's
- CTAC (Canolfan Gynghori Masnachu Plant yr NSPCC)

Gweithwyr proffesiynol sy'n helpu plant sydd wedi'i masnachu o bosib yw **Eiriolwyr Annibynnol Masnachu Plant.**

- Mae amlinelliad o'r sefydliad a'i rôl wedi'i gynnwys yn Adran 48 Deddf Caethwasiaeth Fodern 2015.

- Rhaid i bob plentyn y nodir ei fod wedi'i fasnachu o bosibl gael ei gyfeirio at y gwasanaeth Eiriolwyr Annibynnol Masnachu Plant a bydd y gwasanaeth EAMP yn dyrannu'r achos er mwyn i'r plentyn gael cymorth uniongyrchol neu i gael gymorth gan Gydlynydd Arfer Rhanbarthol y gwasanaeth EAMP.
- Gallai atgyfeirio'n gyflym ar ôl nodi helpu i leihau nifer y plant sy'n mynd ar goll ac sy'n cael eu hailfasnachu.

Cyfeirio plentyn at y Gwasanaeth Eiriolwyr Annibynnol Masnachu Plant

**0800 043 4303**: Ffoniwch y Llinell Atgyfeiriadau 24/7 a byddwch yn cael cymorth i wneud yr atgyfeiriad dros y ffôn.

**trafficking.referrals@bypmk.cjsm.net** : Neu anfonwch ffurflen atgyfeirio i'r blwch post diogel.

## Ymateb cymesur

- Os yw'r plentyn yn wynebu risg uniongyrchol neu'ch bod yn amau y gall fynd ar goll cyn y gellir sicrhau ei ddiogelwch cysylltwch â'r Heddlu ar 999.
- Pan fo'r plentyn yn ymddangos yn ddiogel ac yn dda ac nad oes pryderon o ran gallu'r rhiant/gofalwr i gadw'r plentyn yn ddiogel a chefnogi ei lesiant, dylid darparu gwybodaeth am gymorth i'r plentyn a'i riant/gofalwr (gweler atodiadau).
- Os oes gan unrhyw asiantaeth sy'n ymwneud â'r plentyn bryderon y gallai fod gan y plentyn anghenion gofal a chymorth na all ei rieni/gofalwyr eu diwallu heb gymorth, dylai geisio cydsyniad y rhieni i atgyfeirio'r plentyn i wasanaeth Gwybodaeth, Cyngor a Chymorth lleol er mwyn asesu ei anghenion
- Mae dyletswydd statudol ar bartneriaid perthnasol i Adrodd am Blant sydd mewn Perygl (Adran 130) dan Ran 7 y Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru). Mae adran 130(4) yn diffinio "plentyn mewn perygl" yn blentyn sydd:
    - **a)** yn cael, neu sy'n wynebu risg o gael, ei gam-drin neu ei esgeuluso neu ddioddef mathau eraill o niwed, a
    - **b)** y mae arno anghenion am ofal a chymorth (p'un a yw'r awdurdod lleol yn diwallu unrhyw un neu rai o'r anghenion hynny ai peidio).

Pan fo plentyn wedi'i adrodd dan adran 130, rhaid i'r awdurdod lleol ystyried p'un a oes seiliau dros gynnal ymchwiliad dan adran 47 o Ddeddf Plant 1989.

- Os bydd y Gwasanaethau Cymdeithasol yn penderfynu nad yw'r adroddiad/atgyfeiriad wedi'i dderbyn yn ymwneud â phlentyn sy'n wynebu risg byddant yn cofnodi hyn a'r rhesymau dros eu penderfyniad.

- Dylai Gwasanaethau Cymdeithasol yr awdurdod lleol y mae'r plentyn yn ei ardal wneud penderfyniad ar sail y dystiolaeth ar a ddylid cynnal trafodaeth strategaeth amlasiantaeth i lywio penderfyniad ar ymateb ar gyfer y plentyn, gan gynnwys a ddylid cynnal Cyfarfod Strategaeth amlasiantaeth. Dylai cynrychiolwyr pob awdurdod lleol sy'n berthnasol i'r plentyn ac unrhyw Wasanaeth Troseddwyr Ifainc sy'n berthnasol i'r plentyn fod yn rhan o'r drafodaeth strategaeth amlasiantaeth. Ni ddylai bod unrhyw oedi cyn ymateb i wybodaeth am blentyn sy'n wynebu risg oherwydd nad yw'r plentyn fel arfer yn byw yn yr awdurdod lleol lle nodir bod problem ddiogelu.

- Pan fo cynllun gofal a chymorth, cynllun amddiffyn plant neu ei fod yn blentyn sy'n derbyn gofal neu ei fod mewn ystâd ddiogel, dylid cynnal trafodaeth strategaeth amlasiantaeth i benderfynu a oes angen Cyfarfod Strategaeth i lywio'r gwaith o ddatblygu neu adolygu cynllun ar gyfer y plentyn.

- Mae'r trefniadau ar gyfer cynnal Cyfarfod Strategaeth wedi'u nodi yng Ngweithdrefnau Diogelu Cymru a Gweithio Gyda'n Gilydd i Ddiogelu Pobl Cyfrol 5 - Ymdrin ag Achosion Unigol i Amddiffyn Plant sy'n Wynebu Risg Llywodraeth Cymru a gyhoeddwyd dan Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru). Pan fo'n bosibl, dylai fod gan yr ymarferwyr sy'n mynychu'r Cyfarfod Strategaeth wybodaeth uniongyrchol am y plentyn. Fodd bynnag, cydnabyddir y gallai rhai asiantaethau ddod i gysylltiad â phlentyn am y tro cyntaf o ganlyniad i'r materion a gaiff eu hystyried yn y Cyfarfod Strategaeth.

- Dylai'r Cyfarfod Strategaeth ystyried a oes unrhyw wybodaeth neu dystiolaeth sy'n gysylltiedig â'r plentyn sy'n awgrymu bod materion diogelu penodol eraill y mae angen eu hystyried yn ogystal â'r prif fater diogelu. **Dylai'r Cyfarfod Strategaeth ganolbwyntio ar y plentyn yn hytrach nag ar y broblem.**

- Dylai Gwasanaethau Cymdeithasol ddarllen Canllawiau Ymarfer Cymru Gyfan a gyhoeddwyd gyda Gweithdrefnau Diogelu Cymru ar unrhyw faterion perthnasol cysylltiedig megis Cam-fanteisio'n Rhywiol ar Blant, Plant sy'n mynd ar goll o'r cartref neu leoliad gofal, neu Gam-fanteisio Troseddol ar Blant.

- **Rhaid** i bob plentyn y nodir ei fod wedi'i fasnachu o bosibl gael ei gyfeirio at y gwasanaeth Eiriolwyr Annibynnol Masnachu Plant a bydd y gwasanaeth yn dyrannu'r

achos er mwyn i'r plentyn gael cymorth uniongyrchol neu i gael cymorth gan Gydlynydd Arfer Rhanbarthol y gwasanaeth EAMP. Gallai atgyfeirio'n gyflym ar ôl nodi helpu i leihau nifer y plant sy'n mynd ar goll ac sy'n cael eu hail-fasnachu.

- Rhaid i'r Cyfarfod Strategaeth arwain at gamau gweithredu cytunedig i lywio'r gwaith o ddatblygu neu adolygu cynllun amddiffyn plant a/neu ofal a chymorth i'r plentyn. Rhaid i'r cynllun hwn ystyried anghenion cyfannol y plentyn er mwyn hyrwyddo llesiant ac atal niwed yn y dyfodol ac ni ddylai ganolbwyntio ar reoli risg yn unig.
- Pan fo'r Cyfarfod Strategaeth yn arwain at gytundeb nad oes angen cynllun dylid cofnodi'r rhesymau dros y penderfyniad hwn a dylid ystyried atgyfeirio at wasanaethau ataliol.
- Mae hawl gan blant a phobl ifanc i gael cynnig rhagweithiol o eiriolaeth gan Eiriolwr Proffesiynol Annibynnol (EPA) statudol lle y deuant yn blant sy'n derbyn gofal neu sy'n destun ymholiadau amddiffyn plant sy'n arwain at Gynhadledd Amddiffyn Plant Gychwynnol. Gwneir y '**cynnig rhagweithiol'** yn uniongyrchol i'r plentyn gan y Gwasanaeth Eiriolaeth. Mae 'cynnig rhagweithiol' yn cynnwys rhannu gwybodaeth am hawl statudol plentyn yn benodol o ran cael cymorth gan Wasanaeth Eiriolaeth Proffesiynol Annibynnol. Dylid rhannu gwybodaeth â nhw sy'n cynnwys eglurhad am rôl yr Eiriolaeth Broffesiynol Annibynnol. Mae hyn yn cynnwys beth gall a beth na all ei wneud, sut mae'n gweithredu ar sail ei ddymuniadau a theimladau, ei annibyniaeth a sut bydd yn gweithio'n unig dros y plentyn/person ifanc, ei bolisi ar gyfrinachedd a niwed sylweddol – eglura hawl statudol plant a phobl ifanc ar gymorth i fynegi eu barn, eu dymuniadau a'u teimladau yn ogystal â'u hawl i wneud sylwadau neu gwynion.
- Mae'n **rhaid** i Ymatebwyr Cyntaf lenwi Ffurflen MAC Plant a gwneud atgyfeiriad ffurfiol i'r Mecanwaith Atgyfeirio Cenedlaethol nrm@nca.x.gsi.gov.uk

## Ôl-ofal a chynlluniau diogelwch ar gyfer plant sydd wedi'u masnachu

- Pan fo plentyn wedi bod yn destun cyfnod o gael ei fasnachu mae'n bwysig ei fod yn cael ei wneud yn gyfforddus yn gorfforol ac yn cael derbyniad sy'n gwneud iddo deimlo'n ddiogel.
- Os oes angen triniaeth feddygol ar y plentyn, os yw wedi dweud ei fod wedi dioddef ymosodiad rhywiol neu gorfforol sy'n gofyn am archwiliad a/neu os yw o dan ddylanwad alcohol neu gyffuriau dylid ymdrin â hynny'n unol â'r prosesau diogelu plant a chyn bwrw ati i ofyn cwestiynau manwl am yr hyn a ddigwyddodd iddo.

- Pan fydd y plentyn yn barod dylid rhoi'r cyfle iddo i drafod ag oedolyn y gall ymddiried yno am ei brofiad o gael ei fasnachu. Dylai hyn ddigwydd mewn lleoliad ac ar adeg pan fo'r plentyn yn ddigon cyfforddus i siarad.

- Mae'n hanfodol paratoi cynlluniau cadarn ar gyfer plentyn sydd mewn perygl neu sydd wedi cael ei fasnachu gyda chamau y cytunwyd arnyn nhw gyda rhieni/gofalwyr, asiantaethau a darparwyr lleoliadau.

- Bydd y gwasanaeth Eiriolwyr Annibynnol Masnachu Plant yn helpu i sicrhau bod y plentyn yn cael llais yn y cynlluniau a wneir ar ei gyfer, yn cynnig cymorth i sicrhau diogelwch y plentyn ac yn gweithio tuag at ei atal rhag cael ei fasnachu o'r newydd.

- Mae angen sicrhau bod rhieni/gofalwyr, gofalwyr maeth[5] a staff sy'n gweithio mewn lleoliadau gofal preswyl yn cael gwybodaeth, cyngor a chymorth clir i roi strategaethau diogelwch ar waith i gadw'r plentyn yn ddiogel, lleihau'r tebygolrwydd y caiff ei ail-fasnachu ac o ran dilyn camau y cytunwyd arnynt yn y cynllun ar gyfer y plentyn. Mae gwybodaeth i rieni/gofalwyr ac i ofalwyr maeth a staff sy'n gweithio yn y maes gofal preswyl wedi'i chynnwys yn yr atodiadau.

## Cynllunio ar gyfer plentyn wrth iddo droi'n 18 oed

- Ni chaiff rhai plant eu nodi'n blant sydd mewn perygl i gael eu masnachu neu yn ddioddefwyr masnachu nes y byddant yn hŷn. Mae dyletswyddau amddiffyn plant ar eu cyfer yn parhau i fod ar waith nes y dyddiad y byddant yn troi'n 18 oed.

- Bydd rhai plant yn parhau i fod mewn perygl o ail-fasnachu a cham-fanteisio arnynt pan fyddant yn oedolion. Mae'n bwysig bod cynllunio ar gyfer y plentyn yn cynnwys ei atgyfeirio'n brydlon at y gwasanaethau i oedolion wrth i'w ben-blwydd yn 18 oed agosáu. Os yw'r plentyn yn derbyn gofal wedyn dylai'r materion hyn gael eu hystyried yn rhan o'r broses gynllunio Llwybr.

- Dylid gwneud trefniadau i'r achos gael ei adrodd yn un sy'n cynnwys oedolyn mewn perygl dan Adran 128 Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014.

- Dylid ystyried a yw'r achos yn un i gael ei atgyfeirio i Bawso 0800 731 8147, New Pathways 01685 379 310 (Canol, Gorllewin a De Cymru) neu Cymorth i Fenywod yng Nghymru 0808 80 10 800.Gallant roi cymorth i ddioddefwyr sy'n oedolion o fasnachu, caethwasiaeth fodern a thrais yn erbyn menywod, cam-drin domestig a trais rhywiol. Mae mwy o wybodaeth ar gael yn Byw Heb Ofn.

# Atodiadau

**DDIFFINIADAU**

### Plentyn ar ei ben ei hun sy'n ceisio lloches

Diffinnir Plentyn ar ei ben ei hun sy'n ceisio lloches gan baragraff 352ZD y Rheolau Mewnfudo fel plentyn sydd:

- dan 18 mlwydd oed pan wneir y cais
- yn ceisio lloches ar ei ben ei hun
- wedi'i wahanu oddi wrth y ddau riant ac nid yw dan ofal oedolyn sydd yn ôl y gyfraith neu arfer â chyfrifoldeb i wneud hynny

Nid yw bod ar ei ben ei hyn yn statws parhaol a gall newid, yn enwedig os oes gan y plentyn deulu yn y DU.

### Plentyn wedi'i wahanu

Mae Confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn yn diffinio plentyn ar wahân fel "plentyn sydd wedi'i wahanu oddi wrth ei ddau riant, neu oddi wrth ei ofalwr cyfreithiol neu arferol blaenorol, ond nid o anghenraid oddi wrth ei berthnasau eraill. Gallai hyn, felly, gynnwys plentyn gydag aelodau eraill o'r teulu sy'n oedolion".

Ceir diffiniad rhyngwladol ar fasnachu pobl yn Erthygl 3 Protocol Palermo i Gonfensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Droseddau Trawswladol a Chyfundrefnol 2000 ac a fabwysiadwyd yn llawn gan Erthygl 4 Confensiwn Ewrop ar Weithredu yn Erbyn Masnachu Pobl, a gadarnhawyd gan y DU yn 2009. Dyma'r diffiniad:

- **a)** Ystyr "masnachu pobl" yw recriwtio, cludo, trosglwyddo, dal neu dderbyn pobl, drwy fygwth neu ddefnyddio grym neu ffurfiau eraill o orfodi, cipio, twyllo, camddefnyddio pŵer neu fanteisio ar berson agored i niwed neu roi neu dderbyn taliadau neu fanteision i gael caniatâd person sydd â rheolaeth dros berson arall, at y diben o gam-fanteisio.'_ _Mae cam-fanteisio yn cynnwys, ar y lleiaf, cam-fanteisio drwy buteinio eraill neu ffurfiau eraill ar gam-fanteisio rhywiol, gorfodi rhywun i weithio neu roi gwasanaeth, caethwasiaeth neu arferion sy'n debyg i gaethwasiaeth, caethiwed neu dynnu organau;
- **b)** Bydd cydsyniad dioddefwr i "fasnachu pobl" ar gyfer y bwriad o gam-fanteisio fel y nodwyd yn is-baragraff (a) yr erthygl hwn yn amherthnasol pan fo unrhyw un o'r dulliau a nodwyd yn is-baragraff (a) wedi'u defnyddio;

- **c)** Caiff recriwtio, cludo, trosglwyddo, dal neu dderbyn plentyn at y diben o gam-fanteisio arno ei ystyried yn “fasnachu pobl” hyd yn oed os nad yw’n cynnwys unrhyw un o’r dulliau a nodwyd yn is-baragraff (a) yr erthygl hon;
- **d)** Ystyr plentyn yw unrhyw un dan 18 mlwydd oed.

### Gweithio dan orfod

Nid yw gweithio dan orfod wedi’i gyfyngu i sector penodol o’r farchnad lafur ond mae achosion wedi’u nodi yn y sectorau canlynol:

- gweithgynhyrchu
- prosesu bwyd
- amaeth
- lletygarwch
- y diwydiant harddwch.

### Caethwasanaeth domestig

Mae caethwasanaeth domestig yn aml yn cynnwys pobl sy’n gweithio ar aelwyd lle maent yn cael eu:

- cam-drin
- sarhau
- gwneud i weithio oriau blinedig
- gorfodi i fyw a gweithio dan amodau annioddefol
- gorfodi i weithio am ychydig iawn o arian neu ddim o gwbl.

### Tynnu organau (medi organau)

Mae’r math yma o fasnachu yn cynnwys cam-fanteisio ar bobl yn sgil eu horganau mewnol, a gaiff eu defnyddio at ddibenion trawsblannu. Gall masnachwyr orfodi neu dwyllo eu dioddefwyr i roi un o’u horganau. Yr organau a fasnechir fwyaf yw arennau a iau, ond gall unrhyw organ na all adfywhau ac y gellir ei dynnu a’i ailddefnyddio fod yn agored i’r fasnach anghyfreithlon hon.

## Elw ariannol yn cynnwys dioddefwyr sy’n blant

Caiff y rhan fwyaf o blant eu masnachu at ddibenion creu elw ariannol. Gall hyn gynnwys taliad gan neu i rieni’r plentyn. Yn y rhan fwyaf o achosion, mae’r masnachwr hefyd yn cael ei dalu gan y rheiny sydd am gam-fanteisio ar y plentyn wedi iddo gyrraedd y DU.

Mae masnachwyr yn benodol yn targedu cymunedau tlawd i gam-fanteisio ar eu bregusrwydd. Gall teuluoedd tlawd a digartref roi eu plant yng ngofal masnachwyr sy’n addo rhoi incwm, addysg neu hyfforddiant sgiliau iddynt, ond sy’n cam-fanteisio arnynt yn pen draw.

Gall rhieni a pherthnasau hefyd fod ynghlwm wrth gam-fanteisio ar y plentyn. Mae’r plant yn debygol iawn o fod yn driw i’w rhieni neu ofalwyr felly ni ddylech ddisgwyl y byddant, ar eu liwt eu hunain, yn ceisio cael ei hamddiffyn rhag y fath bobl.

## Mabwysiadu anghyfreithlon

Ni fyddai pob achos o fabwysiadu anghyfreithlon yn cael ei ystyried yn gam-fanteisio. Gall plentyn, er enghraifft, fod wedi’i werthu neu fabwysiadu yn anghyfreithlon heb gam-fanteisio arno. Nid yw dibenion gwerthu babanod a masnachu pobl / caethwasiaeth fodern o anghenraid yr un fath. Mae rhai pobl yn ystyried bod gwerthu babanod i’w mabwysiadu yn ffurf ar fasnachu mewn pobl gan ei fod yn arwain at greu elw drwy werthu i berson arall. Fodd bynnag, ni fyddai gwerthu plentyn i’w fabwysiadu yn anghyfreithlon yn cael ei ystyried yn fasnachu os nad cam-fanteisio ar y plentyn ei hun yw’r diben. Mae gwerthu babanod fel arfer yn arwain at sefyllfa lle nad yw’r plentyn yn destun cam-fanteisio. Pan fo’r ‘rhieni’ yn awyddus i fabwysiadu’r plentyn a rhoi cartref cariadus iddo dylid ystyried hynny’n achos o fabwysiadu anghyfreithlon ond nid yn achos o fasnachu neu gaethwasiaeth fodern.

Mae masnachu / caethwasiaeth fodern, ar y llaw arall, yn awgrymu cam-fanteisio ar y dioddefwyr. Os yw plentyn mabwysiedig yn destun llafur dan orfod neu gam-fanteisio rhywiol, yna gall hynny fodloni’r elfen cam-fanteisio o fasnachu mewn pobl / caethwasiaeth fodern. Pan fo plentyn yn cael ei roi i ‘rieni’ drwy fabwysiadu anghyfreithlon i gam-fanteisio ar y plentyn yna gall hynny ddod o dan y diben o gam-fanteisio a fyddai’n cael ei ystyried yn elfen o fasnachu neu gaethwasiaeth fodern.

Mewn rhai achosion pan fo’r baban yn cael ei dynnu oddi wrth ei fam dan orfod, neu pan fo’r fam yn cael ei gorfodi i roi genedigaeth neu yn destun cam-fanteisio at yr un diben, gall y fam fod yn ddioddefwr masnachu neu gaethwasiaeth fodern.

### Nid masnachu pobl yw smyglo pobl

Ni ddylai'r Awdurdod Cymwys gymysgu masnachu pobl â smyglo pobl.

Mae smyglo pobl yn digwydd pan fo unigolyn yn gofyn am help hwylusydd i ddod i'r DU yn anghyfreithlon, ac mae'r berthynas rhwng y ddau barti yn dod i ben ar ôl cyflawni'r weithred. Mae llawer o'r rheiny sy'n dod i'r DU yn anghyfreithlon yn gwneud hynny drwy ddilyn y llwybr hwn. **Nid yw smyglo pobl yn ffurf ar gaethwasiaeth fodern.**

Diben **smyglo pobl** yw helpu person i groesi ffin yn anghyfreithlon, ac fe'i hystyrir yn drosedd yn erbyn sofraniaeth y wlad. Diben caethwasiaeth fodern yw cam-fanteisio ar y dioddefwyr gyda golwg ar sicrhau elw neu fudd arall a chaiff ei ystyried yn ymyriad ar ryddid ac integriti yr unigolyn hwnnw.

Mae sawl ffactor sy'n helpu i wahaniaethu rhwng smyglo a chaethwasiaeth fodern (masnachu):

- gyda masnachu, gall mynediad y dioddefwr i'r wlad fod yn gyfreithlon neu anghyfreithlon ond mae smyglo yn cynnwys mynediad anghyfreithlon
- gall masnachu ddigwydd o fewn ac ar draws ffiniau cenedlaethol ond mae'n rhaid teithio'n rhyngwladol i smyglo
- yn achos oedolion, caiff masnachu ei gyflawni gan ddefnyddio grym a/neu dwyll – nid felly'r achos gyda smyglo, sy'n awgrymu mai gweithred wirfoddol yw ar ran y sawl sy'n cael ei smyglo
- mae masnachu yn cynnwys y bwriad i gam-fanteisio ar bobl wedi iddynt gyrraedd tra bod gwasanaethau smyglwyr fel arfer yn dod i ben ar ôl i bobl gyrraedd eu cyrchfan ac i'r weithred honno ddod i ben
- dim tystiolaeth o ganiatâd y rhieni i'r plentyn deithio i'r DU neu aros gyda'r oedolyn
- dim neu ychydig iawn o dystiolaeth o unrhyw berthynas flaenorol gyda'r oedolyn neu nid yw'r plentyn yn ymddangos fel petai'n adnabod yr oedolyn o gwbl
- tystiolaeth bod llety anfoddhaol wedi'i drefnu yn y DU

Gall yr afreoleidd-dra dan sylw fod yr unig arwydd y gall y plentyn fod yn ddioddefwr masnachu a/neu gaethwasiaeth fodern. Mae plant sydd yn y fath sefyllfa yn aml yn amharod iawn i roi gwybodaeth, ac maent yn aml yn sôn am eu profiadau mewn ffordd anghyson neu gyda chamgymeriadau amlwg. Gan mwyaf mae hyn oherwydd bod eu storïau wedi'u creu gan eu masnachwr neu hwylusydd caethwasiaeth fodern.

Ni ddylid ystyried bod plant dan 18 oed sy'n teithio ar eu pen eu hunain heb neu gyda oedolyn yn ddioddefwyr caethwasiaeth fodern yn seiliedig ar y ffactor hwn yn unig, oherwydd mae'n bosib y gall eu sefyllfa fod un ddilys neu heb unrhyw gysylltiad o gwbl â chaethwasiaeth fodern. Os caiff plentyn ei atgyfeirio pan nad oes unrhyw arwyddion yn bresennol dylai'r Awdurdod Cymwys ofyn i staff rheng-flaen wneud ymholiadau ychwanegol fel y bo'n berthnasol, a all gadarnhau p'un ai a oes unrhyw arwyddion o gaethwasiaeth fodern yn bresennol.

### Consent of child victims

Ystyrir bod unrhyw blentyn a gaiff ei recriwtio, cludo, trosglwyddo, dal neu ei dderbyn at y diben o gam-fanteisio arno, neu a gaiff ei gyfarwyddo i weithio ei ystyried yn ddioddefwr caethwasiaeth fodern posibl, hyd yn oed os yw wedi'i orfodi neu ei gam-arwain neu beidio. Mae hyn oherwydd yr ystyriaeth nad yw'n bosibl i blant roi cydsyniad ar sail gwybodaeth.

Mae'n rhaid i staff yn yr Awdurdod Cymwys ystyried bod unrhyw blentyn a gaiff ei recriwtio, cludo, trosglwyddo, dal neu ei dderbyn at y diben o gam-fanteisio arno, neu a gaiff ei gyfarwyddo i weithio ei ystyried yn ddioddefwr masnachu a/neu gaethwasiaeth fodern, p'un ai ydyw wedi'i orfodi neu ei gam-arwain neu beidio.

## Adnoddau

**Mae'r sefydliadau hyn ar gael i bob plentyn a pherson ifanc yng Nghymru. Dylai gweithwyr proffesiynol ac ymarferwyr roi gwybod i blant am y sefydliadau hyn a sut mae cysylltu â nhw.**

**Meic** yw'r gwasanaeth llinell gymorth i blant a phobl ifanc hyd at 25 oed yng Nghymru. O ddysgu am yr hyn sy'n digwydd yn eich ardal leol i helpu i ddelio gyda sefyllfa anodd, bydd Meic yn gwrando hyd yn oed pan na fydd unrhyw un arall yn gwneud. Ni fyddant yn eich beirniadu a byddant yn helpu trwy roi gwybodaeth, cyngor defnyddiol a'r gefnogaeth sydd ei hangen arnoch i newid. Gallwch:

- Sgwrsio â rhywun o Meic ar-lein: https://www.meiccymru.org/
- Ffonio Meic am ddim i siarad â rhywun: **0808 802 3456**
- Anfon neges testun at Meic am ddim ar: 84001

Gallwch gysylltu â Gwasanaeth Ymchwilio ac Eirioli Comisiynydd Plant Cymru sydd am ddim ac yn gyfrinachol. Mae ar gael yn ffynhonnell o help a chymorth os yw plant a phobl

ifanc neu'r rhai sy'n gofalu amdanynt yn teimlo nad yw plentyn yn cael ei drin yn deg. Gallwch chi neu eich rhiant/gofalwr:

- Ffonio'r gwasanaeth am ddim: **0808 801 1000**
- E-bostio'r gwasanaeth: advice@childcomwales.org.uk

Mae **Childline** yn wasanaeth am ddim, yn breifat a chyfrinachol y gall unrhyw un sydd dan 19 oed ei ddefnyddio i gael cymorth a chyngor. Mae gwefan Childline, www.childline.org.uk/, yn cynnwys tudalenau gwybodaeth a chyngor yn ogystal â phethau i'ch helpu i ddatrys problemau eich hun. Os ydych chi eisiau siarad â Childline, gallwch:

- Ffonio Childline am ddim: **0800 1111**
- Cofrestru ar-lein i e-bostio Childline neu sgwrsio ar-lein â chwnselydd: www.childline.org.uk/get-support/

Os ydych am siarad â Childline yn Gymraeg ewch i www.childline.org.uk/get-support/

## Gwybodaeth i rieni a gofalwyr ar gefnogi plentyn sydd mewn perygl o gael ei fasnachu

Mae plant a phobl ifanc sydd wedi'u masnachu neu sydd mewn perygl o gael eu masnachu angen cefnogaeth oedolion diogel o'u cwmpas i'w hatal rhag niwed pellach.

Mae masnachu plant yn digwydd pan fo rhywun yn symud plentyn o un man i fan arall fel y gallant gam-fanteisio arnynt er budd personol. Mae masnachu plant yn ffurf ar gam-drin plant.

Caiff rhai plant eu masnachu i'r DU o wlad arall ac yna gallant gael eu masnachu o gwmpas gwahanol leoedd yn y DU. Mae rhai plant sydd wedi'u geni a'u magu yn y DU hefyd yn cael eu masnachu rhwng lleoedd yn y DU. Gall hyn gynnwys symud plant o fewn eu cymunedau eu hunain.

Mae'r bobl sy'n masnachu plant yn gwneud hynny er mwyn eu budd personol a gall plant fod wedi'u masnachu er mwyn cam-fanteisio arnynt drwy Gam-fanteisio'n Rhywiol ar Blant, Cam-fanteisio'n Droseddol ar Blant, Gweithio dan Orfod.

Mae plentyn sydd wedi cael ei fasnachu fwy na thebyg wedi cael ei fygwth gan y bobl sydd wedi'i symud, mae'n bosib na fydd yn meddu ar y geiriau i esbonio beth sydd wedi

digwydd iddo a gall gymryd llawer o amser iddo deimlo'n ddigon diogel i siarad am yr hyn a ddigwyddodd.

Mae'n bwysig bod plant yn teimlo'n gyfforddus yn gorfforol ac yn ddiogel yn emosiynol.

Bydd y plentyn yn cael cymorth gan y Gwasanaeth Eiriol Masnachu Plant a gallan nhw gynnig cymorth i chi ar gadw'r plentyn yn ddiogel. Byddant yn dod i gwrdd â'r plentyn a siarad gydag ef am y cymorth y gallant ei gynnig.

Camau i'w dilyn pan fydd plentyn neu berson ifanc wedi cael ei fasnachu neu mewn perygl o gael ei fasnachu

1. Bydd gan y plentyn gynllun diogelwch y cytunwyd arno gan weithwyr proffesiynol. Mae'n bwysig iawn eich bod yn dilyn y cynllun diogelwch. Ar y dechrau gall hyn gynnwys cyfyngu mynediad y plentyn â'r rhyngrwyd a pheidio â gadael y plentyn ar ei ben ei hun. Pwrpas hyn yw lleihau'r perygl y gall masnachwyr plant gysylltu ag ef ac achosi niwed pellach iddo.

2. Os yw'r plentyn yn mynd ar goll dylech gysylltu â'r Gwasanaethau Cymdeithasol a'r Heddlu ar unwaith.

3. Dylech roi'r holl wybodaeth y gallwch ei rhoi am y plentyn, ei hanes ac unrhyw beth a ddigwyddodd cyn iddo fynd ar goll.

## Gofal a Chymorth

**Gweithwyr proffesiynol sy'n helpu plant sydd wedi'i masnachu o bosib yw Eiriolwyr Annibynnol Masnachu Plant.** Maen nhw yn:

- Helpu plant i ddeall sut mae gofal cymdeithasol, mewnfudo a systemau cyfiawnder troseddol yn gweithio.

- Galluogi plant i gael llais.

- Cynnig eiriolaeth, cyfarwyddyd a'u cyfeirio at wasanaethau perthnasol.

- Helpu i gadw'r plant yn ddiogel a gweithio tuag at eu hatal rhag cael eu masnachu o'r newydd.

Bydd y Gwasanaethau Cymdeithasol yn sicrhau y caiff y plentyn ei gyfeirio at y Gwasanaeth Eiriolwyr Annibynnol Masnachu Plant.

Mae gan yr NSPCC ac ECPAT UK daflenni da i blant mewn gwahanol ieithoedd i blant a fasnachwyd:

www.nspcc.org.uk

www.ecpat.org.uk

Mae ar staff rheng-flaen penodol sy'n dod ar draws ddioddefwr posibl caethwasiaeth fodern neu fasnachu pobl ddyletswydd i roi gwybod i'r Swyddfa Gartref dan Adran 52 Deddf Caethwasiaeth Fodern 2015. Mae'r gofyniad hwn yn berthnasol i'r Heddlu, Awdurdodau Lleol, yr Asiantaeth Troseddu Cenedlaethol a'r Gangmasters Labour and Abuse Authority. Mae canllawiau ac adnoddau atodol wedi'u cyhoeddi mewn perthynas â Deddf Caethwasiaeth Fodern 2015.

Deddf Caethwasiaeth Fodern 2015 : dogfennau a deunydd hyrwyddol yn ymwneud â gwaith i roi pen ar gaethwasiaeth fodern.

---

[1] K. Shavev Greene and F. Toscano, 2016, Summit report: best practices and key challenges on interagency cooperation to safeguard unaccompanied children from going missing

[2] House of Commons, Home Affairs Committee (2009) The Trade in Human Beings: Human Trafficking in the UK Sixth Report of Session 2008–09, Volume 1 London: House of Commons

[3] CEOP (2010) Strategic Threat Assessment: Child Trafficking in the UK London: CEOP

[4] www.nspcc.org.uk/preventing-abuse/child-abuse-and-neglect/child-trafficking/signs-symptoms-effects/

[5] www.barnardos.org.uk/barnardos-sa-project-evaluation-executive-summary.pdf